# Pam Arfau?
# Gweithgareddau Dilynol ar gyfer Athrawon

Mae'r gweithgareddau dilynol ar gyfer Pam Arfau yn rhoi cyfleoedd i'r disgyblion gyflawni canlyniadau dysgu Cyfnod Allweddol 3 o'r Fframwaith ABCh i bobl ifanc rhwng 7 a 19 yng Nghymru.

| **Pam Arfau? Gweithgareddau ychwanegol** | **Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yng Nghymru 2013** | **Cysylltiadau gyda'r Fframwaith ABCh i bobl ifanc rhwng 7 a 19 yng Nghymru 2008** | |
|---|---|---|---|
| | | **Sgiliau** | **Ystod** |
| **1. Beth yw'r deddfau ynglŷn ag arfau?** | Ll(Ll)s<br>Ll(Ll)g<br>Ll(Ll)c&th<br>Ll(D)d&d<br>Ll(D)y&d | ▪ Cyfathrebu teimladau a barn bersonol yn hyderus drwy ystod o wahanol ddulliau<br>▪ Ystyried safbwyntiau pobl eraill er mwyn llywio barn a gwneud penderfyniadau a dewisiadau cytbwys yn effeithiol<br>▪ Bod yn bendant a gwrthsefyll pwysau digroeso gan gyfoedion ac eraill | ▪ Deall yr hyn y maent hwy'n credu sy'n weithredoedd cywir ac anghywir a'r dilemas moesol sy'n gysylltiedig â sefyllfaoedd bywyd. |
| **2. Cadw eich hun yn ddiogel** | Ll(Ll)s<br>Ll(Ll)g<br>Ll(Ll)c&th<br>Ll(D)d&d<br>Ll(D)y&d | ▪ Nodi ac asesu rhagfarn a dibynadwyedd<br>▪ Gweithio'n | ▪ Dangos agwedd gyfrifol tuag at gadw'r meddwl a'r corff yn ddiogel ac iach |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Ll(Y)s&th | annibynnol ac ar y cyd | |
| **3. Datgelwyr metel a sganwyr corff** | Ll(Ll)s<br>Ll(Ll)g<br>Ll(Ll)c&th<br>Ll(D)d&d<br>Ll(D)y&d<br>Ll(Y)s&th<br>Ll(Y)ydd | ▪ Ystyried safbwyntiau pobl eraill er mwyn llywio barn a gwneud penderfyniadau a dewisiadau cytbwys yn effeithiol | ▪ Datblygu parch tuag atynt eu hunain ac eraill |
| **4. Ystyried yr effaith!** | Ll(Ll)s<br>Ll(Ll)g<br>Ll(Ll)c&th<br>Ll(D)d&d<br>Ll(D)y&d<br>Ll((Y)s&th | ▪ Ystyried safbwyntiau pobl eraill er mwyn llywio barn a gwneud penderfyniadau a dewisiadau cytbwys yn effeithiol<br><br>▪ Defnyddio amrediad o dechnegau ar gyfer myfyrio personol<br><br>▪ Cyfathrebu teimladau a safbwyntiau personol yn effeithiol mewn ystod eang o sefyllfaoedd drwy ystod o ddulliau priodol | ▪ Datblygu parch tuag atynt eu hunain ac eraill<br><br>▪ Datblygu mewnwelediad i'w gwerthoedd |
| **5. Beth yw risg?** | Ll(Ll)s<br>Ll(Ll)g<br>Ll(Ll)c&th<br>Ll(D)d&d<br>Ll(D)y&d | • Mynegi eu teimladau a'u barn yn hyderus drwy ystod o ddulliau priodol | • Dangos agwedd gyfrifol tuag at gadw'r meddwl a'r corff yn ddiogel ac iach |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **6. Nodi risgiau** | Ll(Ll)s<br>Ll(Ll)g<br>Ll(Ll)c&th<br>Ll(D)d&d<br>Ll(D)y&d<br>Ll(Y)s&th<br><br>Rh(DYRH)c&c | ▪ Mynegi eu teimladau a'u barn yn hyderus drwy ystod o ddulliau priodol<br><br>▪ Llunio barn bersonol a gwneud penderfyniadau gwybodus. | ▪ Datblygu mewnwelediad i'w gwerthoedd<br><br>▪ Dangos agwedd gyfrifol tuag at gadw'r meddwl a'r corff yn ddiogel ac iach |
| **7. Lleihau'r risgiau** | Ll(Ll)s<br>Ll(Ll)g<br>Ll(Ll)c&th<br>Ll(D)d&d<br>Ll(D)y&d<br>Ll(Y)s&th | ▪ Defnyddio technegau priodol ar gyfer myfyrio personol<br><br>▪ Cymhwyso dysgu i sefyllfaoedd tebyg oddi mewn a thu allan i'r ysgol | ▪ Deall bod i weithredoedd personol ganlyniadau<br><br>▪ Dangos agwedd gyfrifol tuag at gadw'r meddwl a'r corff yn ddiogel ac iach |
| **8. Gangiau a phobl ifanc** | Ll(Ll)s<br>Ll(Ll)g<br>Ll(Ll)c&th<br>Ll(D)d&d<br>Ll(D)y&d<br>Ll(Y)s&th<br>Ll(Y)ydd | ▪ Bod yn bendant a gwrthsefyll pwysau digroeso gan gyfoedion<br><br>▪ Defnyddio amrediad o dechnegau ar gyfer myfyrio personol | ▪ Datblygu parch tuag atynt eu hunain ac eraill<br><br>▪ Datblygu agweddau cadarnhaol tuag at eu hunain ac eraill |

**1. Beth yw'r deddfau ynglŷn ag arfau?** Yr athro yn adolygu gwers Swyddog Cymunedol Ysgolion yr Heddlu ac yn pwysleisio'r ffaith bod cario arf yn anghyfreithlon. Yr athro naill ai'n dosbarthu'r Cwis Oedran yn ôl y Gyfraith (1a) i brofi gwybodaeth y disgyblion neu'n defnyddio'r PowerPoint (1b).

Gofynnwch i'r dosbarth ymateb i'r datganiadau canlynol gan ddefnyddio proses continwwm gwerthoedd. Gofynnwch iddynt sefyll mewn rhes a symud i'r man y maent hwy'n feddwl yw'r man priodol. (h.y. cytuno'n gryf --- anghytuno'n gryf) (1.c). Wedi bob datganiad rhowch gyfle i'r disgyblion gyfiawnhau eu dewis, cyflwyno dadleuon dros eu safbwyntiau ac o bosibl perswadio eraill i symud eu safle ar y continwwm. Dewiswch gymaint o ddatganiadau ag y bydd amser yn ei ganiatáu.

- Mae pobl ifanc sy'n cario cyllyll yn 'cŵl'.
- Mae pobl hŷn yn meddwl bod y rhan fwyaf o bobl ifanc yn cario arfau.
- Dylech allu prynu cyllell cyn eich bod yn 18 oed.
- Teganau diniwed yw gynau aer.
- Mae cael trwydded ar gyfer gwn saethu yn wirion.
- Mae pobl ifanc yn poeni am faint o'u cyfoedon sy'n cario arfau.

Yna rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach a dosbarthwch un o'r tair dalen ffeithiau/senario y gyfraith (1.d, 1.e, 1.f) i bob grŵp. Caniatewch ddeng munud iddynt ddarllen y cynnwys ac ystyried y cwestiynau senario. Dylai pob grŵp benodi llefarydd i roi adborth i'r dosbarth.

## 1d. Dalen Ffeithiau'r Gyfraith - Cyllyll

**Pam cario cyllell?**

Yn ystadegol rydych yn fwy tebygol o gael eich anafu os ydych yn cario cyllell.

- Yn y DU nid yw'n anghyfreithlon i fod yn berchen cyllell, ond o'i defnyddio mewn ffordd fygythiol bydd unrhyw gyllell yn dod yn arf ymosodol.
- Fodd bynnag, mae'r gyfraith wedi penderfynu bod cyllyll fflic, cyllyll pili pala a chyllyll wedi eu cuddwisgo yn waharddedig ac yn hollol anghyfreithlon.
- Mae canllawiau newydd ar gyfer yr heddlu, a gyflwynwyd ym mis Mehefin 2008, yn golygu y gall unrhyw un dan 16 sy'n cario cyllell gael ei erlyn.
- Mae'n anghyfreithlon i brynu unrhyw gyllell os ydych dan 18 oed.
- Mae'n drosedd i gario unrhyw gyllell mewn man cyhoeddus.
    - Eithriad i hyn fyddai cyllell boced y mae ei llafn yn llai na 3.5 modfedd ac y gellir ei phlygu i mewn ac allan o'r carn heb ei chloi.
    - Mae hefyd yn gyfreithlon i chi gael cyllell mewn man cyhoeddus os ydych ei hangen ar gyfer eich gwaith (e.e. os ydych yn gogydd neu'n saer coed), os yw hi gennych am resymau crefyddol (h.y. kirpan y Sîc),
- Os cewch eich dal, gallech wynebu dwy flynedd mewn carchar a dirwy o £5,000.
- Mae uchafswm y ddedfryd am gario cyllell wedi codi o 2 flynedd i 4 blynedd.
- Os ydych yn anafu rhywun neu'n defnyddio cyllell i gyflawni trosedd gallai'r cosbau fod yn llawer gwaeth.

**1d. Senario**

Mae eich ffrind wedi dweud wrthych ei fod/bod yn cario cyllell cegin gyda llafn chwe modfedd ac wedi dweud wrthych am beidio â dweud wrth neb arall.

1. Sut fyddech chi'n teimlo yn gwybod hyn?
2. A fyddech chi'n rhannu'r wybodaeth gydag unrhyw un?
3. Sut fyddech chi'n ymateb i'ch ffrind?

**1e. Dalen Ffeithiau'r Gyfraith - Gynnau**

**Pam cario gwn?**

Yn y DU mae'r gyfraith ynglŷn â gynnau yn llym ac mae'n mynd yn llymach. Peidiwch byth â chario gwn na chyllell 'rhag ofn'. Os daw'r heddlu o hyd iddyn nhw fe fyddwch mewn trwbl. Ac yn ystadegol rydych yn fwy tebygol o gael eich saethu os ydych yn cario gwn.

Y gyfraith o ran gynnau

- Mar angen trwydded arnoch i fod yn berchen gwn - mae cyfyngiadau llym ar gael un.
- Mae'n rhaid i ddau oedolyn warantu i'r heddlu eich bod yn ddigon cyfrifol i fod yn berchennog gwn.
- Os ydych rhwng 14 a 17 oed gallwch ddefnyddio gwn aer, gwn nad sy'n defnyddio bwledi, mewn clwb gynnau neu ar eiddo preifat os oes gennych ganiatâd.
- Os ydych dros 17 oed gallwch brynu gwn aer a phelenni cyn belled â bod y gwn o dan derfyn cyfreithiol y DU, sef egni blaen 12ft.lbs ar gyfer reifflau ac egni blaen 6ft.lbs ar gyfer pistolau.

**1e. Senario**

**Rydych yn nhŷ eich ffrind ac mae'n dweud wrthych fod ganddo wn saethu yn y cwpwrdd dan y grisiau.**

1. **Sut fyddech chi'n teimlo yn gwybod hyn?**
2. **A fyddech chi'n rhannu'r wybodaeth gydag unrhyw un?**
3. **Sut fyddech chi'n ymateb i'ch ffrind?**

**1f. Dalen Ffeithiau'r Gyfraith - Arfau eraill**

**Pam cario eitemau eraill fel arfau?**
Mae'n amlwg fod cyllyll a gynnau yn arfau ymosodol, ond beth am eitemau eraill? Yn yr un modd ag y gellir ymosod arnoch gyda gwn neu gyllell, mae'r un peth yn wir am unrhyw eitem arall a ddefnyddir fel arf. Os ydych yn chwarae pŵl ac yn defnyddio'r ciw i ymosod ar rywun mae'r ciw yn dod yn arf ymosodol. Mae mor syml â hyn - caiff unrhyw eitem yr ydych yn ei defnyddio i achosi anaf ei hystyried yn arf.

Os cewch eich stopio gan yr heddlu tra'n cario rhywbeth sy'n debyg i'r disgrifiad hwnnw, boed yn ddarn o bren, yn fat pêl-fas neu beth bynnag, fe fydd yn rhaid i chi brofi nad ydych yn bwriadu ei ddefnyddio i achosi niwed.

- Nid yw honni eich bod yn cario arf yn gyhoeddus ar ran rhywun arall yn esgus o gwbl.
- Os cewch eich arestio a'ch cael yn euog o gario arf ymosodol yn gyhoeddus gallech gael dirwy, dedfryd o garchar, neu'r ddau.
- Os ceir chi'n euog o achosi niwed corfforol difrifol gallech wynebu carchar am oes.
- Os ceir chi'n euog o ddynladdiad, ymgais i lofruddio neu lofruddiaeth, gall eich cosb hefyd fod yn garchar am oes.

**1f. Senario C**

**Mae eich ffrind yn dweud wrthych ei fod wedi cael pêl snwcer mewn hosan gan ffrind i'w gwarchod.**

**1. Sut fyddech chi'n teimlo yn gwybod hyn?**
**2. A fyddech chi'n rhannu'r wybodaeth gydag unrhyw un?**
**3. Sut fyddech chi'n ymateb i'ch ffrind?**

Yr athro/athrawes i arwain y drafodaeth ddosbarth drwy ofyn am atebion i’r canlynol:
1. Sut fyddech chi'n teimlo yn gwybod hyn?
2. A fyddech chi'n rhannu'r wybodaeth gydag unrhyw un?
3. Sut fyddech chi'n ymateb i'ch ffrind?

Yr athro/athrawes i barhau gyda’r cwestiynau ychwanegol canlynol a rhaid iddynt bwysleisio’r gyfraith ynglŷn ag arfau. Mae hyn yn un o brif faterion yr ymarferiad hwn.

4. Beth fyddech chi’n ei wneud fel ymateb i’r tri datganiad?
5. A fyddech chi’n gallu cadw gwybodaeth a ddatgelir ym mhob senario yn gyfrinach?
6. Pa gyngor fyddech chi’n ei roi i’ch ffrind ym mhob achos?
7. Sut fyddech chi’n teimlo petai rhywun yn cael ei anafu?
8 Sut gall eich penderfyniadau gael eu dylanwadu gan yr hyn a ddywed y gyfraith?
9. A ddylai unrhyw rai o’r sefyllfaoedd senario ddod yn faterion i’r heddlu?

**Gall yr athro/athrawes roi cynghorion i ddisgyblion ynglŷn â rhoi arfau i’r heddlu**
Os oes gennych arf ac yn ystyried ei roi i’r heddlu, dyma gyngor a ffeithiau:

- Chwiliwch am amnestau arfau, pryd y gallwch roi arf ymosodol i'r heddlu heb gael eich erlyn.
- Beth bynnag fo’r rheswm pam fod gennych arf ymosodol, cyngor yr heddlu yw cysylltu â’ch gorsaf leol er mwyn trefnu i’w roi i’r heddlu.
- Os dewch o hyd i wn neu gyllell fflic, cyngor yr heddlu yw peidio eu cyffwrdd, ond i riportio’r mater i’r heddlu naill ai’n bersonol neu dros y ffôn.
- Os oes gennych unrhyw bryderon ynglŷn ag arfau a throsedd gallwch ffonio Taclo’r Taclau yn ddienw ar 0800 555 111.

2. **Cadw eich un yn ddiogel** - gan weithio mewn grwpiau bach rhestrwch awgrymiadau i helpu pobl ifanc i gadw’n ddiogel o ran digwyddiadau cyllyll. Defnyddiwch y daflen diogelwch cyllyll (2a) fel y gall disgyblion asesu gwaith grwpiau eraill.

TAFLEN DIOGELWCH CYLLYLL
**Awgrymir y cynghorion canlynol er mwyn helpu pobl ifanc i gadw'n ddiogel:**
- Os ydych yn cyfarfod neu os daw rhywun atoch a'ch bod yn meddwl bod siawns eu bod yn cario cyllell, cerddwch i ffwrdd.
- Peidiwch â meddwl y gallwch siarad â nhw a'u perswadio i beidio ei defnyddio.
- Peidiwch â meddwl y gallwch resymu â nhw, cerddwch i ffwrdd a dywedwch wrth oedolyn.
- Os ydych yn amau bod rhywun yr ydych yn ei adnabod yn cario cyllell mae'n bwysig dweud wrth oedolyn yr ydych yn ymddiried ynddo/ynddi.
- Mae'n anghyfreithlon i unrhyw un dan 18 oed gario cyllell.
- Peidiwch â chael eich temtio i gario cyllell, hyd yn oed os ydych yn meddwl eich bod ei hangen i'ch amddiffyn.
- Os ydych yn cael eich bwlio neu'n teimlo dan fygythiad, soniwch am eich pryderon wrth oedolyn.
- Mae'r rhan fwyaf o blant sy'n cario cyllyll yn gwneud hynny oherwydd eu bod ofn. Nid yw hynny'n syniad da.
- Os oes pobl a mannau sy'n codi ofn arnoch, mae'n well eu hosgoi.

Mewn grwpiau bach crëwch weithgareddau chwarae rôl sy'n addas ar gyfer disgyblion ieuengach i'w perfformio mewn gwasanaeth dosbarth neu wasanaeth blwyddyn. Crëwch sefyllfa lle y daw person yn ei arddegau wyneb yn wyneb â pherson gyda chyllell a chael ei fygwth. Gan ddefnyddio tri chymeriad yn eich sgets - yr ymosodwr gyda chyllell, y dioddefwr sydd wedi ei ddychryn ac arsyllydd, sy'n cyfleu'r stori i'r gynulleidfa o ddisgyblion iau. Defnyddiwch y cynghorion sydd wedi eu rhestru yn y Daflen Diogelwch Cyllyll i roi syniadau ar gyfer y chwarae rôl.

**3 Datgelwyr metel a sganwyr corff -** Yr athro/athrawes yn dweud bod y dosbarth wedi dod yn Gyngor Ysgol. Yn ddiweddar mae'r pennaeth wedi clywed sïon bod cyllyll yn cael eu cario i'r ysgol. Mae dod o hyd i ffyrdd i gadw disgyblion yn ddiogel bob amser yn bwysig.
Naill ai, yr athro/athrawes i ddarllen yr adroddiad sganiwr o'r PowerPoint (3.a) neu. Darparu copïau (3.b) i'r disgyblion sydd wedi dod yn gynrychiolwyr ar y Cyngor Ysgol.

**ADRODDIAD SGANIWR**
**(I'w drafod yng nghyfarfod nesaf y Cyngor Ysgol i'w gynnal ar ….)**
Mae datgelwyr metel yn olygfa gyfarwydd mewn meysydd awyr, gemau pêl-droed, cyngherddau, clybiau nos ac amgueddfeydd.

- Mae sganwyr yn canfod yn gyflym bersonau sy'n cario cyllyll neu arfau.
- Mae nifer o ysgolion yn dechrau defnyddio datgelwyr metel ond gall hyn fod yn ddadleuol.
- Cred rhai bod eu defnydd mewn ysgolion yn ffordd dda o fynd i'r afael â throseddau cyllyll, ond mae llawer o athrawon ac Aelodau Seneddol yn ei weld fel bygythiad i hawliau sifil.
- Mae'r ddadl yn ymddangos fel petai am barhau am amser hir ond mae datgelwyr metel wedi bod yn gyffredin mewn ysgolion yn yr Unol Daleithiau ers nifer o flynyddoedd, wedi eu goruchwylio gan swyddogion diogelwch ac athrawon.
- Mae technoleg arall allai helpu i ddatgelu arfau yn cynnwys systemau teledu cylch cyfyng.
- Mae nifer o ysgolion wedi gweld bod teledu cylch cyfyng yn arwain at welliannau eraill, yn cynnwys:;
  - lleihad mewn trais
  - lleihad mewn fandaliaeth a graffiti
  - lleihad yn nifer y disgyblion yn cario cyffuriau ac arfau i'r ysgol
  - lleihad mewn lladradau
  - gwelliant cyffredinol yn ymddygiad disgyblion

Rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach, i drafod addasrwydd defnyddio datgelwyr metel a sganwyr corff yn eu hysgol. Rhowch bapur siart fflip a phen i bob grŵp. Gofynnwch i'r disgyblion drafod a rhestru manteision ac anfanteision sganwyr a chyflwyno barn derfynol i'r pennaeth. Cyflwynwch adborth o waith y grŵp i'r dosbarth cyfan.

**4. Ystyried yr effaith** – Yr athro/athrawes yn gofyn y cwestiwn rhagarweiniol 'Faint ohonoch sy'n cario cyllell?' Yna dangoswch y ppt o Arolwg Mori i'r disgyblion. (4.a. sleid 2)

Arolwg MORI:

- Mae 29% o ddisgyblion ysgolion uwchradd yn cario cyllyll
- Mae 57% o ddisgyblion a waherddir yn cario cyllyll yn gyson
- Mae ysbytai yn adrodd cynnydd mewn 'anafiadau trywanu', yn bennaf ymhlith gwrywod ifanc.

Gofynnwch i'r dosbarth; a yw'r canlyniadau hyn yn rhai y byddech wedi eu disgwyl? Cyfiawnhewch eich atebion. Rhannwch y dosbarth yn barau. Gofynnwch iddynt ystyried pam eu bod yn meddwl bod rhai disgyblion yn dewis cario cyllell? Gall disgyblion gofnodi eu hymatebion ar bapur post-it. Gall yr athro/athrawes gasglu sylwadau disgyblion a rhoi adborth i'r dosbarth. Yna dangoswch y PowerPoint o arolwg Mori (4.a sleid 3) sy'n nodi'r canlynol:

**Rhesymau mae disgyblion yn eu rhoi dros gario cyllyll:**

- ofn a/neu amddiffyn eu hunain
- i ddwyn, aflonyddu a brawychu
- er mwyn y 'wefr'
- pwysau cyfoedion
- er mwyn ennill 'Parch' a statws

Gofynnwch i'r parau o ddisgyblion ymuno'n grwpiau bach. Dosbarthwch set o gardiau effeithiau (4b) i bob grŵp. Mae'r geiriau ar y cardiau yn nodi teimladau, emosiynau, effeithiau a chanlyniadau pobl sydd wedi eu heffeithio arnynt gan ddigwyddiad sy'n gysylltiedig â defnyddio arfau.

Gofynnwch i'r grwpiau ddidoli'r geiriau a'r ymadroddion o dan y pennawd cywir - Corfforol, Seicolegol, Emosiynol ac Effeithiau Ehangach. Dylai'r athro/athrawes gadarnhau eu bod wedi didoli'r geiriau/ymadroddion yn gywir gan ddefnyddio 4.a sleidiau 4-7.

**Corfforol**

- Marwolaeth
- Creithio
- Methu cysgu
- Llwyr ymlâdd
- Colli diddordeb mewn pethau
- Problemau iechyd
- Yfed a chyffuriau
- Bwyta gormod neu dim digon
- Symptomau corfforol gofid

**Seicolegol**

- Methu canolbwyntio
- Ôl-fflachiau
- Hunllefau
- Anghofrwydd
- Ofn
- Drwgdybiaeth

- nerfus
- Pyliau panig

**Ymatebion emosiynol**

- Gofid
- Tristwch
- Euogrwydd

Dim ond pe byddai ….

- Teimlo wedi fferru
- Cywilydd
- Dicter
- Ofn
- Galar
- Dagreuol

**Effeithiau ehangach:**

- Cynnen yn y gymuned
- Teulu'n chwalu
- Dial
- Cynnydd mewn stopio a chwilio gan yr heddlu
- Y gymuned yn cael enw drwg
- Ofn cymunedol
- angen cynyddol am gefnogaeth drwy ysgolion

Yna bydd yr athro/athrawes yn dosbarthu copïau o'r adroddiad papur newydd (4.c) am drywanu angheuol yn Green Park i bob un o'r grwpiau.

*"**Bachgen, 10 oed, yn cael ei drywanu'n angheuol tra'n chwarae pêl-droed**"*
*Yn gynharach heddiw roedd tri ffrind, deg oed, yn chwarae'n hapus yn Green Park.*
*Yn ogystal â chwarae ar y siglenni a'r ffrâm ddringo roeddent hefyd yn chwarae pêl-droed.*
*Mae'n ymddangos bod dau berson ifanc, tua un ar bymtheg oed, wedi dod i mewn i'r parc a dechrau pryfocio'r plant iau a bygwth dwyn eu pêl.*
*Cymerodd un o'r plant hŷn y bêl a dechrau ei chicio o gwmpas gyda'i ffrind. Mae'n ymddangos bod y mwyaf o'r bechgyn deg oed wedi gweiddi ar y bechgyn hŷn; dyna pryd y tynnodd un ohonynt gyllell o'i boced a thrywanu'r bachgen bach sawl gwaith o flaen pawb.*
*Gwelwyd y digwyddiad gan ŵr oedrannus oedd yn eistedd cryn bellter i ffwrdd a mam ifanc oedd yn gwthio pram heibio'r parc.*
*Wedi'r trywanu diflannodd y bobl ifanc ar unwaith i stad dai gyfagos.*
*Ffoniodd y fam ifanc 999 a chyrhaeddodd y gwasanaethau brys o fewn ychydig funudau. Fodd bynnag, yn anffodus, cyhoeddwyd bod y bachgen ifanc wedi marw yn barod. Mae'r heddlu yn ymchwilio ac yn apelio am ragor o wybodaeth.*

Dylai'r athro/athrawes ddyrannu'r gwahanol bobl sydd wedi eu heffeithio arnynt (4.d) i'r grwpiau. Rhowch bapur siart fflip a phen i bob grŵp i lunio map meddwl yn dangos effeithiau a theimladau'r person yr effeithir arno/arni.

- Ffrind y dioddefwr
- Gŵr oedrannus a'r fam ifanc
- Glaslances a drywanodd y dioddefwr
- Glaslances ddiniwed
- Paramedig
- Swyddog heddlu
- Chwaer y dioddefwr - yn eu harddegau
- Rhieni'r dioddefwr
- Athro'r dioddefwr
-

**5. Beth yw 'risg'?** Ysgrifennwch y cwestiwn canlynol ar y bwrdd "*Beth allai ddigwydd os byddwch yn cymryd risg?*" Crëwch fwrdd syniadau a thrafodwch syniadau'r disgyblion. Crynhowch eu syniadau drwy ddweud y "gall cymryd risg arwain at golli bywyd neu anaf".
Gofynnwch i'r dosbarth a ydynt yn cytuno â'r datganiad hwn. Yna gofynnwch i'r dosbarth cyfan ystyried diffiniad "cymryd risg". Wedi trafodaeth ddosbarth, arddangoswch y cerdyn diffiniad (5.b) neu'r PowerPoint (5.a. sleid 1). Cymryd risg yw: 'gweithred heb ystyried posibilrwydd y peryglon sy'n gysylltiedig'. Gofynnwch i'r dosbarth cyfan feddwl am eiriau eraill am risg e.e. siawns, perygl, gambl, herio, posibilrwydd, beiddio, antur peryglu. Arddangoswch y cardiau risg (5.c) neu'r PowerPoint (5.a. sleid 2).

**6. Nodi risgiau-** Rhannwch y dosbarth yn barau a gofynnwch o bob pâr nodi achlysuron lle y gallent fod wedi rhoi eu hunain 'mewn risg'.

*Noder. Gall y gweithgaredd hwn arwain at ddatgeliad gwybodaeth sensitif gan ddisgybl. Os digwydd hyn cyfeiriwch ar bolisi cyfrinachedd yr ysgol am arweiniad ynglŷn â pha gefnogaeth i'w chynnig a'r camau priodol i'w cymryd.*

Ysgrifennwch yr enghraifft y cytunwyd arni ar nodyn post-it a'i osod ar y bwrdd o dan un o'r penawdau canlynol (6.a):

- Sefyllfa risg uchel
- Sefyllfa risg canolig
- Sefyllfa risg isel

***Wedi trafod enghreifftiau'r disgyblion symudwch ymlaen i'r senarios canlynol. Rhowch set o gardiau diemwnt naw fel isod (6.b) i bob grŵp***

- Cynnau tân
- Camu allan tu ôl i gar wedi parcio
- Cario cyllell boced
- Derbyn lifft mewn car
- Defnyddio cyfrifiadur
- Gang yn yfed alcohol ar gornel stryd
- Defnyddio ffôn symudol pan fyddwch allan
- Cerdded ar eich pen eich hyn ar hyd stryd yn y nos
- Beicio oddi ar y ffordd

Mewn grwpiau, trafodwch a rhowch y cardiau mewn trefn, i ddangos maint y risg drwy osod y sefyllfaoedd risg uchel ar ben uchaf y diemwnt a'u graddio i sefyllfaoedd risg isel ar waelod y diemwnt. Gofynnwch i bob grŵp adrodd yn ôl i'r dosbarth cyfan a chytuno ar drefn dosbarth cyfan.

**7. Lleihau'r risg**- Gwahoddwch bob grŵp i ddewis 2 senario o'r diemwnt naw ac, ar gyfer pob un, cynnal asesiad risg gan ddefnyddio'r ffurflen asesu risg a ddarperir (7.a neu 7.b). Mae enghraifft wedi ei llenwi ar y ffurflen. Mae'r gweithgaredd hwn yn annog disgyblion i ystyried tebygolrwydd a difrifoldeb risgiau a'r potensial i leihau risgiau. Arweiniwch y dosbarth drwy'r pro-fforma asesu risg gan ddefnyddio'r PowerPoint (7.c) cyn gwneud yr ymarferiad.

Wedi gorffen yr asesiad risg ar y senarios trafodwch werth defnyddio systemau o'r fath i asesu eu ffordd o fyw eu hunain. Gan ddefnyddio un o'r enghreifftiau personol a ddarparwyd ganddynt yn wreiddiol, gofynnwch iddynt gwblhau rhif tri ar y ffurflen asesu risg (7.a neu 7.b). Adborth dosbarth, a thrafodwch a allai'r broses fod o werth iddynt hwy yn ddiweddarach yn eu bywydau.

Ar ddiwedd yr ymarferiad hwn, defnyddiwch y sesiwn dosbarth cyfan i ystyried y cwestiwn crynhoi hwn, "Pam mae rhai yn eu harddegau mewn mwy o risg o golli bywyd neu gael eu hanafu nag aelodau eraill o'u teulu neu gymuned?"

Adolygwch y prif negeseuon a gyflwynwyd gan Swyddog Cymunedol Ysgolion yr Heddlu yn y wers "Pam Arfau?" a nodwch y gall cario arfau arwain ar ganlyniadau trasig ar gyfer yr unigolion sy'n gwneud hynny a'u teuluoedd.

**8. Gangiau a phobl ifanc –** Cyflwynwch bynciau 'Gangiau'. Cyfeiriwch at enghreifftiau yn y cyfryngau lleol lle bo hynny'n bosibl. Fel dosbarth cyfan gofynnwch i'r disgyblion; beth yw gang? Nodwch syniadau'r disgyblion ar y bwrdd.

Rhannwch y dosbarth yn bedwar grŵp a rhowch bapur siart fflip i bob grŵp gyda'r canlynol wedi eu hysgrifennu arnynt:

- Pam mae pobl ifanc eisiau bod mewn gang?
- Beth yw'r elfennau cadarnhaol am berthyn i gang?
- Beth yw'r elfennau negyddol am berthyn i gang?
- Beth yw'r gwahaniaeth rhwng grŵp a gang?

Rhowch ddau neu dri munud i'r disgyblion ysgrifennu eu hymatebion ac yna symudwch y papurau siart fflip i'r grŵp nesaf mewn cylch.

Rhai o'r elfennau y gall y disgyblion eu hystyried yw:
perthyn i rywbeth, teimlo'n fawr/oedolyn, cyfeillgarwch, pwysau cyfoedion, teimlo'n ddiogel, ffasiwn, cerddoriaeth, gemwaith, yr ardal yr ydych yn byw ynddi/cod post, eich tiriogaeth, delwedd, parch, bod yn cŵl, cyfryngau, ofn, hunaniaeth grŵp, teimlo allan ohoni, dim yn ffitio i mewn gyda'r teulu, bygythiad.

Wedi i'r holl grwpiau gwblhau eu tasgau gofynnwch i bob llefarydd grŵp i adrodd yn ôl i'r dosbarth a thrafod y pwyntiau a godwyd.

Dewiswch un disgybl i ddarllen y neges ganlynol (8.a) i'r dosbarth er mwyn hybu trafodaeth. Rhowch un copi i bob grŵp.

Rydw i eisiau siarad gyda chi am gangiau

Nid yw gangiau yn beth newydd. Maent wedi bod yno erioed. Efallai eich bod wedi clywed am eich rhieni neu eu rhieni hwythau yn siarad am 'mods', 'rockers' a 'teddy boys' pan oedden nhw'n ieuengach, ac mae tystiolaeth bod gangiau i'w cael yng nghyfnod y Rhufeiniaid a thrwy gydol hanes! Os byddwch yn gwylio'r teledu byddwch wedi gweld llawer o 'bloods' a 'crips' ar deledu Americanaidd.

Felly, sut ydych chi'n gwybod os oes rhywun mewn gang? Gall fod oherwydd y tlysau neu'r hwdi neu rywbeth. Ond os ydych yn gwisgo rhywbeth fel yna a yw bob amser yn meddwl eich bod mewn gang?

Mae 'gang' yn ail mor negyddol. Ond bydd eich rheini bob amser yn dweud wrthych am aros gyda'ch ffrindiau a pheidio byth â mynd allan ar eich pen eich hun. Yna, fe welwch pan fyddwch allan gyda'ch ffrindiau, bydd pobl hŷn yn cael ofn ac yn tybio eich bod yn achosi trwbl. Felly, beth mae plentyn i fod i'w wneud?

Gofynnwch i'r disgyblion drafod y canlynol yn eu grwpiau:

- Sut gall grŵp o bobl ifanc wneud yn siŵr nad yw rhywun sy'n pasio yn cael ei frawychu ganddynt? *(Ystyriwch iaith y corff, e.e. safiad, cyfathrebu di-eiriau e.e. dal y llygaid ac ati)*
- Beth allent ei wneud yn wahanol? *(e.e. peidio â chreu rhwystr ar y palmant, gwenu, bod yn gwrtais, grwpiau bach, tawelu'r sŵn ac ati)*
- Os yw pobl yn cyhuddo gang o achosi trwbl, beth fyddech chi'n ddweud wrthynt er mwyn sicrhau'r cyhuddwyr?

Gofynnwch i'r llefarydd roi adborth i'r dosbarth cyfan a mapiwch yr atebion ar y bwrdd. Gellir datblygu hyn fel trafodaeth ynglŷn â hawliau pobl ifanc a hawliau aelodau eraill o'r gymuned.